

Maya Griffiths

Rhif Myfyriwr- 1901110

Cyflwyniad

Ar y poster yma, byddaf yn cyflwyno sut mae amgylchedd ysgol yn effeithio ar ddysgu plant, a sut mae ysgol benodol rydw i wedi cael profiad gyda yn sicrhau dysgu effeithiol, yn enwedig gyda’r cwricwlwm maent yn ei ddilyn. Byddaf hefyd yn cyflwyno gwybodaeth am sut mae’r gymuned a rhieni y plant yn cydweithio gyda’r ysgol, a pa fath o canlyniadau mae hyn yn cael arnynt.

Yr ysgol Lleoli

O adroddiad (Estyn ,2018) rydw i wedi darganfod bod 482 o blant yn mynychu fy ysgol lleoli, ac mae pob un ohonynt yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn hollol bwysig yn yr ysgol yma, oherwydd mae dim ond 10% o’r plant yn siarad yr iaith yn y tŷ, felly mae’n angenrheidiol i’r athrawon siarad a chynorthwyo’r disgyblion i ddefnyddio’r iaith yn ystod ei holl gyfnod yn yr ysgol. Dros gyfnod o dair blynedd, mae dim ond 7% o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn bwyd ysgol am ddim, sydd yn isel iawn gan gymharu â’r canran cenedlaethol (18%). Mae'r hyn yn awgrymu mae’r disgyblion yn byw mewn lleoliad cefnog. Rydym yn gwybod hefyd bod 22% o’r disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol, felly dyma pam mae cymorth, gweithio mewn partneriaeth a sicrhau amgylcheddau dysgu effeithiol yn hyd yn oed mwy pwysig yn yr ysgol lleoli yma, oherwydd mae rhaid iddynt gwrdd ag anghenion pob disgybl yn unigol.

Y 4 Diben

Mae’r ysgol yn dilyn y 4 diben yn ei chwricwlwm, sydd yn hanfodol i gyflawniadau'r disgyblion. Yn ôl (Cwricwlwm Cymru, 2018), pwrpas y pedair diben yw sicrhau bod y disgyblion yn:

- ❖ **“Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes”**- sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd ei photensial, yn ogystal â herio ei hunain. Bydd yr ysgol yn cyflawni hyn mewn ffordd ddiddorol a hwylus. Bydd y plant hefyd yn dod i adnabod sut i gyfathrebu’n well mewn gwahanol sefyllfaoedd, a fydd drwy’r ddwy iaith Gymraeg a Saesneg. Mae ffocws i adnabod sut i greu syniadau a defnyddio adnoddau technolegol yn cael ei chyflwyno i’r disgyblion hefyd.
- ❖ **“Gyfranwyr mentrus, creadigol, sy’n board i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith”**- bydd y disgyblion yn adnabod sut i meddwl yn greadigol sydd yn manteisio nhw wrth ddatrys problemau. Byddant nhw hefyd yn ymwybodol o’r cyfleoedd maen nhw yn mynd i wynebu a’r effeithiau cadarnhaol mae’n cael.
- ❖ **“Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd”**- adnabod sut i fynegi barn wrth werthuso, a sut i drafod beth maen nhw wedi darganfod yn unigol. Bydd y disgyblion hefyd yn ymwybodol sut i ddeall cyfrifoldebau unigolion, ac adnabod yr effeithiau. Mae parchu eraill a bod yn barod i fod yn ddinasyddion ei gwlad a bywyd yn bwysig.
- ❖ **”Yr unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd sy’n gwireddu eu dyheadau yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas”**- bod yn ymwybodol o’i theimladau ei hun ag eraill a’i lles meddyliol. Mae’n bwysig sicrhau bod nhw yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a sefydlu perthnasoedd iachus gydag eraill, trwy barchu ac ymddiried. Mae ffocws y diben yma yn bwysig oherwydd mae’n sicrhau bod y plant yn barod i wynebu heriau a sefyllfaoedd sydd yn gallu digwydd yn ddyddiol.

Rydym yn ymwybodol a fydd Cwricwlwm i Gymru yn 2022, a fydd yr ysgol felly yn dilyn. Mae’r cwricwlwm newydd gyda pherthynas tebyg efo’r pedwar diben. A rhain yw:
“Deall sut y gall credoau a thybiaethau personol ddylanwadu ar ddysgu ac addysgu, datblygu’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth sy’n ofynnol i gynllunio cyfleoedd dysgu creadigol i ysbrydoli dysgwyr a deall sut mae materion sy’n gysylltiedig ag iechyd a lles yn ddylanwadau ar agweddau plant a’u hawydd i ddysgu” – (Hwb, 2020)

Dechrau wrth fy nhraed


Amgylchedd Ffisegol

Mae amgylchedd dosbarth yn effeithio ar sut mae plant yn dysgu. Mewn dosbarth cyfnod sylfaen, mae’n bwysig iawn cael ystafell dosbarth deniadol e.e. cynnwys amrywiaeth o liwiau, arddangosfeydd, a lluniau i ddiddori'r plant i ddysgu. Yn ogystal, mae amgylchedd dosbarth diogel a cadarnhaol yn helpu lles emosiynol y plant. (Ministry of Education, 2016).

Yn ystod fy niwrnodau profi pontio o’r ysgol lleoli, wnes i ddysgu am amgylchedd ffisegol a beth sydd yn creu dosbarth ddysgu da. Mae’r amgylcheddau yma yn effeithio ar lesiant a datblygiadau'r disgyblion mewn gwahanol ffordd. Wrth edrych ar ddyluniad yr ystafell dosbarth am unigolion cyfnod sylfaen, rydym yn gweld amrywiaeth o ganolfannau yn y dosbarth. Mae’r rhain yn cynnwys ardal dwr a thywod, cornel ddarllen, ardal chwarae rôl, mathemateg ayyb, sydd felly yn amrywiol iawn. Mae’r holl ardaloedd yma yn helpu’r plant ddatblygu amrywiaeth o sgiliau e.e rhifedd, cyfathrebu, dychymyg ayyb. Yn yr ystafell dosbarth, mae amrywiaeth o adnoddau addysgol e.e llyfrau, adnoddau i liwio, ysgrifennu ac ati. Unwaith eto mae'r hyn yn sicrhau bod y plant yn dysgu mewn gwahanol ffordd hwylus, sydd hefyd yn helpu’i ddatblygiadau.



Yn ôl adroddiad (Estyn,2018) o’r ysgol lleoli, mae’r ysgol yn cyflwyno gwahanol bwnc pob tymor i’r plant, sydd yn sicrhau osgoi diffyg diddordeb i’r plant. Mae’r gwahanol bynciau yma yn rhai sydd yn diddori’r disgyblion yn ogystal â bod yn ffurf o ddysgu. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd hwylus a fydd y plant yn ddigon hapus i fynd i. Wrth ddilyn (Cwricwlwm Cymru,2018) am ddatblygiadau i ddisgyblion cyfnod sylfaen, mae’n bwysig i’r ysgol sicrhau amgylchedd dysgu o safon, a dyma rai maen nhw’n ffocysu ar;



Gweithio gyda cymunedau

Mae fy ysgol lleoli yn ymgysylltu llawer gyda’r gymuned leol er mwyn cefnogi dysgu’r plant yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol Hwb gyda’r gymuned, lle mae aelodau’r gymuned yn dod i mewn i’r ysgol ac addysgu’r disgyblion, e.e. yr heddlu ac aelodau gorsaf tan. Pwysigrwydd y rhain yw mai’r plant yn cael dealltwriaeth o aelodau’r gymuned sydd yn helpu, ac felly byddant nhw yn cael fwy o barch. Mae’r disgyblion yn teithio i wahanol ardaloedd yn Abertawe, e.e marchnad leol i brynu fwyd a mynd i’r stondin i gydweithio gydag aelodau’r gymuned ac adnabod sut i ddelio gydag arian. Yn wythnosol, mae’r plant yn ymweld â’r ‘Coedwig’ sydd yn ardal natur i sicrhau dysgu tŷ allan ac awyr iach. Wrth ymweld, bydd y plant yn defnyddio adnoddau o’r goedwig a hefyd glanhau'r ardal natur, sydd yn sicrhau bod nhw’n gwerthfawrogi byd. Bydd y disgyblion hefyd yn ymweld â Plantasia a’r traeth i ddysgu am natur.

Gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni

Trwy weithio gyda rhieni a theuluoedd mewn sawl ffordd, mae'n creu amrywiaethau o fuddion i'r plentyn. Mae yna ystod eang o nodau y mae'r ysgolion yn eu creu gyda'r rhieni, er enghraifft, adeiladu perthnasoedd iach gydag ymddiriedaeth a pharch, cynnwys rhieni wrth wneud penderfyniadau, bod yn rhagweithiol ynglŷn â diogelwch a beth yw ffocws ysgolion ar gyfer eu plant. (EEF)
Ar wefan fy ysgol lleoli, mae’n gynnwys llawer o wybodaeth glir a manwl ar gyfer y rhieni, sydd yn sicrhau bod nhw yn ymwybodol o ddiweddiariadau a gwybodaeth bwysig . Mae’r wefan yn cynnwys cysylltiad e-bost er mwyn cydweithio gyda’r ysgol, gwybodaeth am profion cenedlaethol, adfer adferol, adnoddau dysgu defnyddiol am weithgareddau addysgol yn y tŷ a gwybodaeth gyffredinol am bolisiau a’r cwricwlwm mae’r ysgol yn ei ddilyn. Bydd yr holl wybodaeth yma yn ardystio bod y rheini yn teimlo fel rhan o’r ysgol a ddim yn cael unrhyw bryderon am addysg ei phlant. Mae’r rhieni hefyd yn chwarae rôl flaenllaw am gyd destunau'r ysgol. Mae’r ysgol hefyd yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg ar gyfer y rhieni er mwyn gwella siarad yr iaith, sydd yn rhoi effaith cadarnhaol ar ddatblygiad iaith y disgyblion.

Cyn Dechrau ysgol: Yn ystod profion pontio , darganfyddais bod yr ysgol yn gweithio gyda theuluoedd mis cyn i’r plentyn ddechrau ysgol. Yn ystod hyn, bydd apwyntiadau yn cael ei chynnal er mwyn holi unrhyw gwestiynau a rhoi’r cyfle i warchod y rhieni mewn am drefn y dydd a disgwyliadau ysgol. Bydd y disgyblion newydd yn cael ei rhoi mewn grŵp o 5 tan fod nhw’n setlo mewn a theimlo’n llai pryderus a fwy cyfforddus. Wrth warchod y rhieni mewn cyn i’w plant ddechrau, bydd yr hyn yn sicrhau bod perthnasoedd yn cael ei adeiladu mor gynnar na posib.



Bronfenbrenner

Mae theori Bronfrenbrenner yn edrych ar sut mae amgylcheddau a pherthnasoedd yn effeithio ar ddatblygiad plentyn. Nid yn unig Mae’r amgylchedd agosach yn effeithio ar ddatblygiad y plentyn , ond hefyd fwy eang hefyd yn ei effeithio. Ar y dde, rydych yn gallu gweld diagram sydd yn egluro'r theori. Mae’r diagram wedi rhannu mewn i 5 gwahanol systemau sef microsystem, mesosystem, exosystem, macrosystem a’r chronosystem. Y microsystem yw’r un sydd yn dylanwadu ar y plentyn fwyaf e.e amgylchedd agos, teuluoedd a’r ysgol. Dyma pan mae amgylcheddau ystafell dosbarth a’r ffordd mae athrawon yn dysgu yn hollol bwysig, gan fod o yn chwarae rhan hanfodol mewn datblygiad plentyn (Simply Psychology, 2020).



CYFEIRNODI

Cwricwlwm i Gymru (2018) *Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwellu ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru*. Ar gael yn: <https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2018/02/Diweddariad-ar-Gwricwlwm-i-Gymru.pdf>

(Darllenwyd Rhagfyr 22ain 2020)

Education Endowment Foundation (2018) *Working with parents to support children's learning. Guidance report*. Ar gael yn: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/ParentalEngagement/EEF_Parental_Engagement_Guidance_Report.pdf

(Darllenwyd Rhagfyr 21ain 2020)

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (2018) *Adroddiad ar Ysgol Gynradd Lleoli Cymraeg*. Ar gael yn: <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las/UploadedDocument/993c574d7b94440faf7db04e75062a03/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las-adroddiad-estyn.pdf> (Darllenwyd Rhagfyr 21ain 2020)

Hwb (2020) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad/> (Darllenwyd Rhagfyr 21ain 2020)

Ministry of Education (2016) Importance of Environment in the classroom. Ar gael yn: <https://education.gov.gy/web/index.php/teachers/tips-for-teaching/item/2074-importance-of-environment-in-the-classroom> (Darllenwyd Rhagfyr 22ain 2020)

Simply Psychology (2020) Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Darllenwyd Rhagfyr 18fed 2020)

Ysgol Gynradd [REDACTED] Ar gael ar: <https://www.ygglonlas.co.uk> (Darllenwyd Rhagfyr 16eg 2020)

Nifer o eiriau- 1516